



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Felinfach

**Felinfach
Llanbedr Pont Steffan
SA48 8AE**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Felinfach

Enw'r darparwr	Ysgol Felinfach
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ceredigion
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	59
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	45
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	5
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	11.3%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	13.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	51.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/06/2004
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	05/10/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	04/12/2023
Bydd ysgolion cynradd Felinfach, Dihewyd a Ciliau Parc yn uno i greu ysgol ardal yn Ionawr 2025. Maent wedi dechrau'r gwaith ar adeiladu'r ysgol newydd mewn cae sy'n agos iawn i Ysgol Felinfach.	

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

Adroddiad ar Ysgol Felinfach
Rhagfyr 2023

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Felinfach yn gymuned hapus, deuluol a chroesawgar. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar lle mae'r disgyblion yn gwrtais a pharchus. Mae'r ysgol yn lle diogel gyda'r athrawon a'r disgyblion yn ymgymryd â rôl gofalu am ei gilydd yn ddiwyd.

Mae gan y disgyblion agwedd bositif at eu gwaith ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd, digidol, creadigol a chorfforol yn dda ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a'i ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr ysgol. Er hyn, cyfyng yw medrau darllen disgyblion ar frig yr ysgol ac mae hyn yn cael effaith ar eu gallu i ysgrifennu'n ddigon cyfoethog a chywir mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o gyrhaeddiad pob disgybl, ac maent yn cynnig adborth da ar lafar sy'n cynnal y dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau yn eu llyfrau yn cynnig arweiniad digon clir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith.

Mae athrawon yn cydweithio'n dda ag ysgolion yr ardal i gynllunio cwricwlwm cynhwysol a diddorol sy'n rhoi ystyriaeth lawn i ddiddordebau'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb gyda chwilfrydedd a chymhelliant ac yn dangos mwynhad at eu dysgu. Er hynny, nid yw disgyblion bob amser yn derbyn digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau dros eu dysgu ac i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae staff yn meithrin perthynas weithio gynnes a chefnogol â'r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn adnabod agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella, a'r camau sydd eu hangen i wireddu hyn. Maent yn ymateb yn dda i farnau'r rhanddeiliaid ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at y naws gynhwysol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bod yn Ysgol Felinfach, maent yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Argymhellion

- A1 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar frig yr ysgol
- A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi'r disgyblion i wella eu gwaith
- A3 Miniogi gweithdrefnau gwarantu ansawdd er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Wrth ddechrau'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sy'n briodol i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygiad. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, yn enwedig mewn medrau llafar a rhifedd. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda medrau llafaredd da ac mae llawer yn cyfathrebu'n naturiol trwy gyfwng y Gymraeg gan ddefnyddio patrymau iaith cyfoethog. Maent yn siarad gyda lefel gynyddol o hyder ac yn cyfathrebu'n ystyrllon mewn brawddegau clir, er enghraifft wrth siarad am barti pen-blwydd. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder ac yn mwynhau siarad o flaen eu cyfoedion. Maent yn cynnal sgysiau aeddfed gydag oedolion ac yn dangos caffaeliad cynyddol o eirfa gyfoethog. Maent yn siaradwyr naturiol Cymreig sy'n trafod yn aeddfed yn eu tafodiaith liwgar leol.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth aeddfed o seiniau llythrennau ac yn dechrau eu cysylltu i ffurfio geiriau. Wrth symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwynhad at ddarllen. Ar y cyfan, maent yn llwyddo i gywain gwybodaeth o'r testun ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ofyn cwestiynau pellach. Er enghraifft, wrth ddarllen am yr Arctig, maent yn gofyn 'a ydy hi mor oer yn yr Antartig hefyd?'. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hynaf yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon cadarn, ac mae hyn yn rhwystro eu rhuglder a'u gallu i ddarllen yn ystyrllon. Yn ogystal, nid yw lefel yr her o fewn eu llyfrau bob amser yn cyfateb i'w gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod dysgu sylfaen yn datblygu medrau marcio cynnar yn dda gan ddangos peth cywirdeb o ran ffurf a siâp llythrennau cyfarwydd. Maent yn dechrau adnabod llythrennau'r wyddor ac yn rhoi cynnig da wrth eu hysgrifennu'n annibynnol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn datblygu eu dealltwriaeth o strwythur brawddegau yn dda ac yn dechrau ysgrifennu yn fwy estynedig. Enghraifft dda o hyn yw'r portread a ysgrifennwyd am Dafydd Iwan gan ei ddisgrifio fel 'person llawen sy'n wên o glust i glust'. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, mae ychydig o'r disgyblion yn ysgrifennu gyda lefel addas o gywirdeb gan dreiglo'n naturiol ac atalnodi'n briodol. Maent yn dangos brwdfrydedd ac ymglymiad at eu gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ysgrifennu'n ddigon cyfoethog a chywir mewn amrywiaeth briodol o ffurfiau.

Mae medrau rhifedd llawer o'r disgyblion ieuengaf yn gadarn iawn. Maent yn adnabod gwerth arian hyd at 10 ceiniog, ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol wrth brynu llaeth yn y 'siop'. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o fondiau rhif hyd at 10 ac yn cyfrif fesul 10 hyd at 100. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau rhif yn gywir. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ffeithiau rhif hyd at 100 ac yn adio a thynnu rhifau 2 digid yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth gwblhau tablau a graffiau, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am hoff lenwad brechedanau plant y dosbarth. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Enghraifft dda

o hyn yw dod o hyd i arwynebedd a pherimedr caeau pêl droed fel rhan o thema Cwpan y Byd. Ym mlynnyddoedd hŷn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o'r pedair weithred fathemategol. Mae ganddynt afael gadarn ar waith rhif, gan luosi rhifau 3 digid efo 2 ddigid a dealltwriaeth dda o siâp a gofod. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfleoedd pwrpasol a diddorol i ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn dilyn gwaith i gynllunio ac adeiladu pont newydd, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn mynd ati i arbrofi a darganfod faint o bwysau y gellir gosod arni cyn iddi blygu.

Mae medrau digidol llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn dangos balchder wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol yn llwyddiannus i greu animeiddiad Nadoligaidd. Maent yn gallu rheoli tegan rhaglenadwy yn fedrus wrth iddynt drefnu stori Sinderela fel rhan o'u thema. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau digidol llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n fedrus. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngwyd i chwilio am wybodaeth, ac yn defnyddio'r ffeithiau a gasglwyd i greu cyflwyniadau yn llwyddiannus, er enghraifft i ddangos 'Taith y Llaeth'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos medrau creadigol cadarn. Yn nosbarthiadau'r dysgu sylfaen, mae disgyblion yn creu ac addurno lampau Diwali yn ogystal â chreu torch Adfent yn dda fel rhan o ddatliadau'r Nadolig. Mae'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau trwy greu portreadau o enwogion Cymru fel rhan o'u gwaith ar fis dathlu Pobl Dduon Gymreig, yn ogystal ag efelychu gwaith arlunydd lleol yn llwyddiannus wrth greu darluniau yn seiliedig ar thema 'Eira mân, eira mawr'. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn gwersi offerynnau cerdd torfol, gan gynnwys y ffidil ac offerynnau chwythu plastig, fel sail i ddysgu chwarae offerynnau pres.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol yn gynyddol hyderus. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau modur mân yn llwyddiannus wrth ddefnyddio plyciwr i gydio mewn darnau o wllân cotwm i gyfateb i rifau at ddeg. Yn ogystal, maent yn dangos hyder a chydbwysedd cadarn wrth feicio a defnyddio cyfarpar mawr ar y buarth yn ystod egwyl. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae medrau lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae amgylchedd hapus a chroesawgar yr ysgol yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae perthnasoedd gwaith cynnes a phwrpasol rhwng staff a disgyblion yn sicrhau eu bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymdeimlad o falchder byrlymus tuag at eu hysgol a'u cymuned ac yn cyfathrebu'n aeddfed a pharchus gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr. O ganlyniad, maent yn ymddwyn yn arbennig o dda ac mae gofal ac empathi y disgyblion hynaf am eu cyfoedion yn aeddfed iawn.

Mae bron bob disgybl yn cael cyfleoedd buddiol i gynrychioli eu cyfoedion drwy gyngor llais y disgybl. Mae'r aelodau'n cwrdd yn rheolaidd ac yn cefnogi gwaith yr ysgol yn briodol. Er enghraifft, trwy drefnu digwyddiadau ac achlysuron codi arian i

elusennau a thrafod cynnwys polisïau a strategaethau perthnasol yn dilyn canfyddiadau holiadur lles disgyblion. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith yr ysgol trwy gynnig eu syniadau eu hunain.

Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth o ran diet a byw'n iach. Mae pob disgybl yn derbyn cinio ysgol yn ddyddiol ac mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o brofiadau dysgu a sesiynau ymarfer corff. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau defnyddio cyfarpar fel beiciau a theganau mawr ar y buarth yn ystod amser egwyl. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini ac maent yn ymrwymo i'r ystod addas o weithgareddau corfforol sy'n cael eu cynnig gan yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein, er enghraifft yn ystod diwrnod arbennig ynglŷn â sut i ddefnyddio'r rhyngwrdd yn ddiogel. Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio a chymhwyso ystod dda o fedrau a dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Wrth ddatblygu drwy'r ysgol, maent yn ymroi'n dda i'w gwaith, ac yn ymdrechu i wneud eu gorau. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth. Er hyn, nid yw eu medrau i ddysgu'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain ar frig yr ysgol wedi eu datblygu'n ddigon cadarn. O ganlyniad, nid ydynt yn adeiladu ar eu medrau yn ddigon effeithiol dros gyfnod o amser.

Mae bron pob disgybl yn dilyn arweiniad staff i gwblhau tasgau yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn parau ac o fewn grŵp gan drafod a chyfathrebu'n briodol, er enghraifft trwy gefnogi'i gilydd i ddatrys problemau a chwblhau tasgau yn ardal allanol y dysgu sylfaen. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio bwriadus rhwng y disgyblion ieuengaf wrth iddynt adeiladu stabl i'r baban Iesu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i holi ac adborth llafar athrawon yn ystod gwersi. Maent yn dechrau ymateb yn briodol i'r cod marcio newydd trwy fireinio atalnodi ac adnabod camsillafu.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion berthnasol gwaith sy'n cefnogi addysg y disgyblion yn briodol. Maent yn trin y disgyblion yn gyfartal a pharchus. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgwr a chynhwysol sy'n elfen gref o ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r amgylchedd dysgu yn cefnogi'r dysgu yn briodol, gan gynnwys enghreifftiau o waith disgyblion ar waliau'r dosbarthiadau sy'n dathlu eu cyflawniad a'u llwyddiannau. Ar y cyfan, mae'r staff yn fodolau iaith da, ac maent yn cyfathrebu'n glir gan annog disgyblion i ymateb yn Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau gyda chyflwyniadau ysgogol a bywiog. Yn yr arferion gorau, maent yn holi'n dreiddgar, yn annog i ddisgyblion i feddwl ac yn bachu diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfrannu syniadau am yr hyn yr hoffent ei

wybod ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Er hynny, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau dros eu dysgu ac i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r staff yn cynnig adborth llafar buddiol er mwyn annog y disgyblion i ystyried yr hyn maent yn ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith. Mae'r trafodaethau hyn yn bwrpasol ac yn gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae adborth ysgrifenedig yr athrawon hefyd yn cynnig arweiniad buddiol i ddisgyblion wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn gyson, ac nid yw bob amser yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith.

Mae egwyddorion dysgu sylfaen wedi eu sefydlu'n briodol ac mae amrediad o brofiadau buddiol yn cael eu cynnig i ddisgyblion yn yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan i'r dosbarthiadau. Er enghraifft, drwy ddefnydd o siop Siôn Corn er mwyn datblygu medrau cyfathrebu a rhifedd, ac ymweliad i Gae Donci i ddysgu mwy am fywyd gwyllt yr ardal leol.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n dda ag ysgolion yr ardal i gynllunio cwricwlwm sy'n gynhwysol a phriodol. Maent yn ei addasu'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn ymateb i ddiddordebau'r disgyblion. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu ystod addas o weithgareddau sy'n datblygu medrau rhifedd a digidol y disgyblion yn fuddiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cynnar yn gadarn. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hyn yn cyfrifo perimedrau caeau pêl-droed fel rhan o'i thema Cwpan y Byd. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau creadigol drwy efelychu a chydweithio ag artistiaid lleol.

Mae'r staff yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, trwy dathlu diwrnod T. Llew Jones a chyfle i berfformio mewn eisteddfod leol. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio ystod addas o weithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol sy'n cefnogi disgyblion i ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol. Er enghraifft, trwy ysgrifennu portread o enwogion Cymru neu farddoniaeth am Gelert. Er hynny, nid ydynt bob tro'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion adeiladu ar y medrau hyn yn ddigon pwrpasol dros gyfnod o amser.

Mae athrawon yn darparu gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion i'r rhieni yn gyson, gan gynnwys nosweithiau i ddisgyblion rannu a dathlu eu gwaith â'u rhieni a thrwy adroddiadau blynyddol.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion gydag ystod o ymwelwyr ac ymweliadau. Er enghraifft, mae gweithiwr gofal yn trafod ei waith yn y gymuned a'r gweinidog lleol yn cynnal gwasanaethau misol. Mae'r disgyblion hyn yn cael cyfleoedd buddiol i fynychu gwrsyll yr Urdd mewn ymweliad ar y cyd â chyfoedion o ysgolion lleol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd a chysylltiadau cadarn, yn enwedig cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a'r disgyblion yn arwain at gymuned ofalgar a theuluol sy'n sicrhau bod bron bob un yn falch iawn o'u hysgol. Mae'r ethos

cyfeillgar a chynnes yn cefnogi'r ymdeimlad o berthyn ac yn annog pawb i ymrwymo'n llawn at ofalu a pharchu eraill. Mae'r athrawon a'r cynorthwyr yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion, gan gynnwys eu hanghenion emosiynol a'u lles.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol Mae gan y cydlynnydd ADY ddealltwriaeth glir a chadarn o anghenion y disgyblion. Mae'n cefnogi staff yn rheolaidd trwy drefnu neu gynnig hyfforddiant a chyngor priodol ar ymyraethau sy'n cynnal y disgyblion yn dda. Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas waith agos â rheni sy'n cyfoethogi'r trafodaethau am gynnydd ac anghenion eu plant. Yn gyffredinol, mae ganddynt drefniadau pwrpasol ar gyfer adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth addas iddynt. Er hyn, nid ydynt bob tro'n ymateb yn ddigon effeithiol i anghenion ychydig iawn o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth bellach.

Mae staff yn adolygu datblygiad disgyblion yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus ag amrywiaeth o bartneriaethau ac asiantaethau er mwyn cefnogi'r disgyblion, er enghraifft trwy gydweithio â thîm iaith a lleferydd i ddarparu cymorth arbenigol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu diwylliant a'u treftadaeth. Mae ymweliadau buddiol i'r pentref a'r ardal leol yn cefnogi eu dealltwriaeth o'u gweithgareddau dysgu yn effeithiol, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ymweld â'r siop leol i brynu llysiau i goginio cawl. Yn ogystal, mae disgyblion yn ddiweddar wedi ymweld â phlasty lleol i ganu carolau sy'n cryfhau eu cyswllt â henoed yr ardal a'r gymuned leol. Dathlir eu Cymreictod yn dda trwy gynnig cyfleoedd gwerthfawr i berfformio a chystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau amrywiol. Mae hyn yn cefnogi eu medrau llafar, creadigol a'u hunanhyder yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyd-addoli, myfyrio a pherfformio o flaen eu cyfoedion. Mae'r disgyblion yn dangos parch a gofal at eraill yn ystod y cyfnodau buddiol hyn, sy'n adlewyrchu ethos a gwerthoedd yr ysgol yn dda. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am gredoau a chrefyddau eraill trwy ddarganfod mwy am eu traddodiadau a'u prif ddathliadau. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd ehangach, gan gynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wedi ei datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am hawliau plant trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau buddiol yn seiliedig ar hawl y mis.

Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu'n briodol ar benderfyniadau trwy gymryd rhan mewn cyngor llais y disgybl. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod bob disgybl yn ei dro yn cynrychioli ei ddosbarth. Yn eu cyfarfodydd, maent yn trafod ystod eang o faterion sy'n ymwneud â gwaith yr ysgol ac yn cyfrannu'n werthfawr at weithgareddau fel codi arian at wahanol elusennau. Er hyn, nid ydynt bob tro'n cael cyfleoedd uniongyrchol i gynnig a gweithredu ar eu syniadau eu hunain.

Mae trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ran diogelu ac mae systemau cadarn

ar waith er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn a chllir ar gyfer yr ysgol sy'n cynnwys annog y disgyblion i fod yn barchus ac i ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth, cymuned, traddodiadau a'u hiaith. Mae'r bartneriaeth glòs sy'n bodoli rhwng yr holl randdeiliaid yn elfen gref o'r ysgol. Mae yma gymuned groesawgar, ddiogel a hapus sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at falchder y disgyblion o berthyn i'r ysgol a'r agwedd gadarn sydd ganddynt tuag eu dysgu.

Mae gan y staff berthynas ryngweithiol effeithiol â'r rhieni sy'n eu hannog i fod yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i gyfraniadau'r rhieni, er enghraifft trwy wneud addasiadau i'r drefn ar gyfer gosod gwaith cartref. Mae'r pennaeth yn rhannu gwybodaeth fuddiol ac amserol, sy'n sicrhau dealltwriaeth rhieni o holl weithgareddau'r ysgol. Yn ogystal, mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol â'r gymuned ehangach drwy gynllunio ystod o brofiadau diddorol, er enghraifft wrth dreulio amser gyda henoed y pentref i greu cardiau Nadolig.

Mae gan yr arweinwyr ystod o weithdrefnau buddiol er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol. Maent yn cywain gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau ac yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith bositif ar elfennau o'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob tro'n defnyddio canfyddiadau hunanwerthuso, ynghyd â gwybodaeth ehangach, yn ddigon effeithiol i lunio blaenoriaethu a chymau perthnasol ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw'r gweithdrefnau gwarantu ansawdd bob tro'n sicrhau gwelliannau addas mewn rhai elfennau allweddol o'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i blaenoriaethau. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy'n canolbwyntio'n briodol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau. Er hynny, nid ydynt wedi dychwelyd i gymryd rôl lawn yng ngweithgareddau hunanwerthuso'r ysgol ers cyfnod clo y pandemig ac mae hyn yn rhwystro eu dealltwriaeth gyfannol o'r ddarpariaeth Mae aelodau o'r corff yn gweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael y gefnogaeth sy'n angenrheidiol arnynt. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, er enghraifft wrth sicrhau trefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r staff yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac mae yna ymdeimlad o waith tîm da yn treiddio drwy'r ysgol. Mae gan arweinwyr drefniadau addas er mwyn hyfforddi a chefnogi datblygiad proffesiynol staff, sy'n cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u targedau unigol.

Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n effeithiol â dwy ysgol leol i ddatblygu darpariaeth gytûn. Mae'r athrawon yn manteisio ar arbenigedd ei gilydd i gydgyllunio eu cwricwlwm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd, yn rhannu adnoddau ac yn cynnal ei gilydd yn effeithiol er mwyn bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysoni'r ddarpariaeth yn dda yn ystod cyfnod ble y bwriedir uno tair ysgol i greu ysgol ardal.

Adroddiad ar Ysgol Felinfach
Rhagfyr 2023

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o gyllid. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i wella'r gefnogaeth a roddir i'r disgyblion ieuengaf. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cael sylfaen gadarn i'w medrau allweddol cynnar. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn defnyddio arian y grant i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal i fynd ar ymweliadau, cael gwersi cerddorol, nofio yn ogystal â sicrhau bod gan bawb wisg ysgol briodol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at y naws deuluol ofalgar sy'n elfen gref o'r ddarpariaeth.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2024